

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Medi 2016

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: POLISI

Teitl: Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru

Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:
Y Byrddau Iechyd Lleol

Angen gweithredu o:
16 Medi 2016

Anfonir gan:
Sarah O'Sullivan-Adams

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Sarah O'Sullivan Adams

Pennaeth y Gangen Polisi Offthalmeg ac Awdioleg

Yr Is-adran Gofal Sylfaenol

E-bost: Sarah O'Sullivan-Adams@cymru.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaeedig: Ffurflen Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) a Nodyn Esboniadol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



The ROYAL COLLEGE of
OPHTHALMOLOGISTS

16 Medi 2016

Ardystio bod gan berson Nam ar y Golwg (Cymru) – proses newydd

Pan fydd person yn colli ei olwg i lefel benodol mae ganddo'r hawl, os yw'n cydsynio, wneud cais i Offthalmolegydd Ymgynghorol ardystio bod ganddo nam difrifol ar y golwg (SSI) neu nam ar y golwg (SI). Mae'n bwysig edrych ar y cynnig hwn i gael ardystiad fel cyfle i'r claf gael rhagor o gymorth a manteisio ar wasanaethau, yn hytrach nag edrych ar y sefyllfa fel rhyw fath o derfyn ar y cymorth y bydd y claf yn ei gael. Daeth Ardystio bod gan berson Nam ar y Golwg yn un o fesurau canlyniadau'r GIG yng Nghymru yn 2015.

Diben yr ardystio yw:

1. Gweithredu fel mecanwaith ar gyfer atgyfeirio unigolyn i awdurdod lleol yr ardal lle mae'n byw er mwyn i'w enw fynd ar y gofrestr ar gyfer cael asesiad a chymorth.
2. Darparu gwybodaeth epidemiolegol am y ffactorau sy'n achosi i bobl golli eu golwg yng Nghymru: mae'r wybodaeth hon bellach yn cael ei bwydo i mewn i fframwaith canlyniadau'r GIG.

Mae'n bwysig bod y broses newydd yn dod yn rhan annatod o wasanaethau llygaid yn ein hysbytai er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i wireddu'r ddau ddiben uchod.

Mae tîm aml-ddisgyblaethol wedi bod wrthi'n gweithio i wella'r broses hon, a fydd ar waith o 16 Medi 2016 ymlaen.

Mae tri phrif newid:

1. Mae'r ffurflen yn fyrrach ac mae'n gofyn am wybodaeth hanfodol yn unig, er mwyn ei gwneud yn haws ei llenwi, a bod hynny'n cymryd llai o amser.
2. Mae'r daflen wybodaeth newydd, sydd wedi ei llunio gan y sector gwirfoddol yng Nghymru, ynghlwm wrth y ffurflen ar gyfer ardystio bod gan berson nam ar y golwg. Mae hynny'n sicrhau bod pawb sy'n cael cynnig ardystiad yn gwybod mwy am y broses a pha gymorth a gwasanaethau sydd ar gael.



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

3. Mae rhoi cydsyniad i gael eich cofrestru, a rhoi cydsyniad i'r wybodaeth fod ar gael ar gyfer ymchwil epidemiolegol, yn nawr yn cael eu cadw fel dau beth ar wahân. Cyn hyn, pe na bai unigolyn yn cydsynio i naill ran y broses neu'r llall, byddai'n rhaid rhoi'r gorau i'r broses ardystio gyfan. Ni fyddai'r unigolyn wedyn yn cael ei atgyfeirio i'r awdurdod lleol, a byddai gwybodaeth a allai fod o gymorth i gynllunio gwasanaethau yn cael ei cholli.

Hoffem annog pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes gofal llygaid i ymgyswrtu â'r ffurflen newydd a'r nodiadau esboniadol, sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn.


Mae'n bwysig eich bod yn manteisio ar y cyfle rhagorol hwn i adolygu'r systemau sydd ar waith yn eich adran, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod am y newidiadau a bod pob claf cymwys yn cael y cyfle i gael ardystiad a'r cymorth priodol wrth benderfynu gwneud hynny.

Yn gywir



Dr Frank Atherton

Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales



Caroline MacEwen FRCOphth

Llywydd
Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr
President
The Royal College of Ophthalmologists

Ardystio bod gan berson Nam ar y Golwg (rhannol ddall) neu
Nam Difrifol ar y Golwg (dall) – Cymru

Rhan 1: Tystysgrif Nam ar y Golwg

Manylion cysylltu

Teitl

Cyfenw

Enw(au) cyntaf a chanol
(nodwch yr enw a ffafrir)

Cyfeiriad
(a'r cod post)

Dyddiad geni

Rhyw

Gwryw

Benyw

Ffôn yn ystod y dydd

Ffôn symudol

E-bost

Fformat a ffafrir ar gyfer
deunydd ysgrifenedig

Print bras

E-bost

Braille

Wedi'i
recordio

Arall

Dewis iaith

Saesneg

Cymraeg

I'w gwblhau gan yr Offthalmolegydd (ticiwch un)

Rwyf o'r farn bod gan y person hwn nam ar ei olwg (rhannol ddall)

Rwyf o'r farn bod gan y person hwn nam difrifol ar ei olwg (dall)

Rhoddwyd pecyn gwybodaeth i'r person

Llofnodwyd

Dyddiad

Enw (prif lythrennau)

Cyfeiriad ysbyty

I'w gwblhau gan y claf neu'r cynrychiolydd

Llofnodwyd

Dyddiad

Fy enw yw

Fi yw'r claf

Fi yw cynrychiolydd y claf

Caniatâd i rannu gwybodaeth

Er mwyn inni allu eich helpu chi ac eraill, mae angen inni gael gwybodaeth gywir.

Nid oes rhaid ichi gytuno i'ch gwybodaeth gael ei rhannu. Gallwch ddewis peidio â rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw un, neu rannu ag un neu fwy o'r sefydliadau a nodir isod. Os byddwch chi'n rhoi eich caniatâd, mae croeso ichi dynnu eich caniatâd yn ôl maes o law trwy ysgrifennu at eich bwrdd iechyd lleol. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw un arall, dim ond y rhai sydd wedi'u henwi isod.

Rydych chi'n cytuno i rannu (ticiwch y rhai priodol):

- A.** Yr holl wybodaeth amdanoch â'ch Meddyg Teulu, eich bwrdd iechyd lleol a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru. Defnyddir yr wybodaeth hon i gynneg gwasanaethau ichi a all fod yn ddefnyddiol ichi.
- B.** Yr holl wybodaeth amdanoch â'r Swyddfa Ardystio, yr Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru. Defnyddir yr wybodaeth hon ar gyfer ymchwil a chynllunio gwasanaethau.
- C.** Yr holl wybodaeth amdanoch â'ch awdurdod lleol. Defnyddir yr wybodaeth hon i roi cyfle ichi gael eich cofrestru fel person sydd â nam ar ei olwg neu sydd â nam difrifol ar ei olwg. Byddan nhw hefyd yn cynneg asesu eich anghenion.

Llofnodwyd

Dyddiad

Fy enw yw

Fi yw'r claf

Fi yw cynrychiolydd y claf

Gweithrediad y golwg

Crafter golwg gorau ar ôl ei gywiro

Llygad dde

Llygad chwith

Maes golwg

Colled sylweddol o'r maes golwg (gan gynnwys hemianopia)

Diagnosis

Pan fo mwy nag un peth yn achosi nam ar y golwg, ticiwch y prif achos.

Retina		Llygad dde	Llygad chwith
Dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint – Neofasgwlaidd y coroid (gwlyb)	H35.32	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint – atroffig / atroffi macwlaidd geograffyddol (sych)	H35.31	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Retinopatheg diabetig	E10.3 – E14.3 H36.0	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Macwlopathi diabetig	H.36.0A	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nychdod etifeddol y retina	H.35.5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Achludiadau fasgwlaidd y retina	H34	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyflyrau eraill y retina: nodwch	<input type="text"/>		

Glawcoma		Llygad dde	Llygad chwith
Prif ongl agored	H40.1	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Prif ongl gaeedig	H40.2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Eilaidd	H40.5	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Glawcoma arall: nodwch	<input type="text"/>		

Pelen y llygad		Llygad dde	Llygad chwith
Myopia dirywiol	H44.2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Niwrolegol		Llygad dde	Llygad chwith
Atroffi optig	H47.2	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Anhwylder cortecs y golwg	H47.6	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Clefyd serebro-fasgwlaidd		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Coroid	Llygad dde	Llygad chwith
Corioretinitis	H30.9 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dirywiad y coroid	H31.1 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Lens	Llygad dde	Llygad chwith
Cataract (ac eithrio cynhenid)	H25.9 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Cornbilien	Llygad dde	Llygad chwith
Creithiau ac anrhyloywderau ar y cornbilien	H17 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ceratitis	H16 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Pediatrig	Llygad dde	Llygad chwith
Retinopatheg mewn babanod a anwyd yn gynnar	H35.1 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Camffurfiad cynhenid yn y system nerfol ganolog	Q00-Q07 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Camffurfiad cynhenid y llygad	Q10-Q15 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cynhenid: nodwch y syndrom neu natur y camffurfiad	<input type="text"/>	

Neoplasia	Llygad dde	Llygad chwith
Llygad	C69 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ymennydd a'r System Nerfol Ganolog	C71-72 <input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Neoplasia arall: nodwch	<input type="text"/>	

Diagnosis nad yw wedi'i gynnwys uchod – nodwch yn benodol, gan gynnwys y Cod ICD10 (os yw'n hysbys)

Nodiadau ychwanegol:

Nodwch nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol o bob diagnosis posibl. Mae'n cynnwys popeth ac eithrio cyflyrau prin sy'n achosi nam ar y golwg a dynnwyd o ffurflenni rhan 5 BD8 2001 a ddychwelwyd. Codau ICD10 yw'r codau uchod.

Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer cymorth

Ydych chi'n byw ar eich pen eich hun?

Oes gennych chi broblemau clyw?

Os mai plentyn ydych chi, ydych chi neu eich rhieni am gael:

Gwybodaeth am ysgolion, addysg neu hyfforddiant?

Grŵp ethnig

Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio orau eich cefndir neu grŵp ethnig

Gwyn

1. Cymro/Cymraes / Sais/Saesnes / Albanwr/Albanes / o Ogledd Iwerddon / Prydeinig

2. Gwyddelig

3. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

4. Unrhyw gefndir Gwyn arall, **disgrifiwch**

Grwpiau cymysg / aml-ethnig

5. Gwyn a Du Caribïaidd

6. Gwyn a Du Affricanaidd

7. Gwyn ac Asiaidd

8. Cefndir Cymysg / Aml-ethnig arall, **disgrifiwch**

Asiaidd / Prydeinig Asiaidd

9. Indiaidd

10. Pacistanaidd

11. Bangladeshaidd

12. Tsieineaidd

13. Unrhyw gefndir Asiaidd arall, **disgrifiwch**

Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig

14. Affricanaidd

15. Caribïaidd

16. Cefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall, **disgrifiwch**

Grŵp ethnig arall

17. Arabaidd

18. Unrhyw grŵp ethnig arall, **disgrifiwch**

Taflen Wybodaeth i Gleifion (I'w rhoi i'r claf)

Mae tair swyddogaeth i'r Dystysgrif Nam ar y Golwg hon:

1. Mae'n golygu eich bod chi'n gymwys i gael eich cofrestru â'ch awdurdod lleol/ymdiriedolaeth gwasanaethau cymdeithasol fel unigolyn sydd â nam ar y golwg (rhannol ddall) neu unigolyn sydd â nam difrifol ar y golwg (dall).
2. Mae'n rhoi gwybod i'ch awdurdod lleol/ymdiriedolaeth gwasanaethau cymdeithasol fod gennych nam ar eich golwg. Mae dyletswydd arnynt i gysylltu â chi i gynnig ichi gofrestru, ac i weld a oes arnoch angen help gyda thasgau o ddydd i ddydd.
3. Mae'r dystysgrif yn cofnodi gwybodaeth bwysig am yr hyn a achosodd y nam ar eich golwg. Mae'n helpu'r GIG i nodi unrhyw dueddiadau mewn rhai cyflyrau llygaid ac mae o gymorth wrth gynllunio gwasanaethau.

Ardystio a chofrestru

Unwaith y cewch chi eich ardystio fel rhywun â nam ar y golwg (rhannol ddall) neu nam difrifol ar y golwg (dall) mae modd ichi gael eich cofrestru â'r awdurdod lleol. Os ydych chi wedi penderfynu y gall yr awdurdod lleol dderbyn eich manylion, byddan nhw'n cysylltu â chi wedyn i drafod cynnal asesiad o'ch anghenion. Bydd yr asesiad yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a allan nhw eich helpu chi i fyw'n annibynnol. Byddan nhw hefyd yn siarad â chi am gofrestru.

Manteision cofrestru

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu a chynnal cofrestri o bobl â nam ar y golwg. Mae'r gofrestr yn helpu eich awdurdod lleol i ddeall anghenion y bobl leol a'u cynorthwyo i gynllunio gwasanaethau i gefnogi pobl sydd â nam ar y synhwyrau.

Yn aml, mae cael eich cofrestru yn gam cadarnhaol tuag at gael cymorth i barhau mor annibynnol â phosibl. Bydd hefyd yn haws ichi brofi i ddarparwyr gwasanaethau, cyflogwyr, ysgolion, colegau neu i bobl eraill beth yw lefel eich golwg. Bydd cofrestru'n eich cynorthwyo chi, ac unrhyw un sy'n gofalu amdanoch i ddangos eich bod yn gymwys i dderbyn hawliau penodol, gan gynnwys budd-daliadau.

Gwybodaeth ar gyfer ymchwil

Trwy'r ffurflen hon, gellir anfon gwybodaeth feddygol am eich cyflwr llygaid i'r Swyddfa Ardystio at ddibenion ymchwil feddygol. Mae'r Swyddfa Ardystio'n casglu gwybodaeth feddygol ac yn coladu cofnodion o achosion o gyflyrau llygaid. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig oherwydd mae'n gallu arwain at ddatblygiadau meddygol yn y dyfodol. Mae hefyd yn darparu tystiolaeth o ba gyflyrau llygaid sy'n effeithio ar bobl fel y gellir cynllunio gwasanaethau llygaid GIG Cymru i ddiwallu anghenion cleifion.

I'w gadw mewn cof

Nid yw'r ffaith ichi gael eich ardystio fel rhywun â nam difrifol ar eich golwg yn golygu o reidrwydd nad ydych chi'n gallu gweld o gwbl, neu y byddwch chi'n colli'ch golwg i gyd yn y dyfodol.

1. Nid oes rhaid ichi gael eich cofrestru gan awdurdod lleol os nad ydych chi'n dymuno gwneud hynny; eich dewis personol chi yw cael eich cofrestru neu beidio.
2. Gallwch gael asesiad ar gyfer cymorth gan eich awdurdod lleol hyd yn oed os nad ydych chi wedi cofrestru.
3. Gallwch dynnu eich caniatâd ar gyfer cofrestru yn ôl pryd bynnag y mynnwch.
4. Efallai y byddwch yn gymwys i hawlio budd-daliadau os cewch eich cofrestru â'r awdurdod lleol. Gallan nhw roi mwy o wybodaeth ichi am hyn.

Gyrru

Os ydych chi'n gyrru a bod gennych nam ar eich golwg, rhaid ichi roi gwybod i'r DVLA am hyn cyn gynted â phosibl. Er bod y DVLA yn ystyried pob achos yn unigol, mae'n debygol na ddylech barhau i yrru os ydych chi wedi derbyn yr wybodaeth hon.

Os ydych chi'n penderfynu parhau i yrru heb hysbysu'r DVLA, gallai'r canlyniadau fod yn ddifrifol iawn ichi, a gallech gael dirwy o hyd at £1,000. Byddech hefyd yn peryglu eich bywyd eich hun yn ogystal â bywydau pobl eraill.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r DVLA yn:

- Cangen Feddygol y Gyrwyr, DVLA, Abertawe, SA99 1TU
- Ffôn 0300 790 6806

E-bost eftd@dvla.gsi.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru

Nodiadau Eglurhaol i Offthalmolegwyr Ymgynghorol a
Staff Clinig Llygaid mewn Ysbytai

Paratowyd gan Lywodraeth Cymru

Cynnwys

1. Statws y ffurflen	3
2. Cefndir	3
3. Diben y ffurflen	3
4. Cofrestru ac asesu gan awdurdodau lleol	3
5. Data epidemiolegol	4
6. Ffurflen Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW)	4
7. Beth sydd angen ei egluro wrth y person sy'n cael ei ardystio?	4
8. Cyngor ar lenwi'r ffurflen	5
9. Pwy ddylai gael ei ardystio fel rhywun â nam difrifol ar y golwg?	5
10. Pwy ddylai gael ei ardystio fel rhywun â nam ar y golwg?	6
11. Diagnosis heb ei gynnwys (yn cynnwys cod ICD-10)	7
12. Pwy ddylai dderbyn copi o'r ffurflen CVIW?	7
13. Cymorth y trydydd sector	7
14. Ymholiadau	7
15. Atodiad 1	8

Statws y ffurflen

1. Mae ffurflen Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW) yn disodli'r ffurflen flaenorol sef CVI 2003, yng Nghymru.

Cefndir

2. Yn ddiweddar cafodd y broses CVI ei hadolygu gan Lywodraeth Cymru gyda mewnbwn gan amrywiaeth o randdeiliaid allweddol yn cynnwys cynrychiolwyr o Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr; Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Befan; Canolfan Addysg Optometreg Ôl-raddedig Cymru; gofal cymdeithasol awdurdodau lleol; gweithwyr canolfannau adsefydlu arbenigol; Swyddfa Ardystio Ysbyty Llygaid Moorfields, Llundain; Optometreg Cymru; Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru; sefydliadau'r trydydd sector yn cynnwys Sight Cymru, RNIB, Guide Dogs UK a Vision Support.
3. Yn flaenorol, roedd y ffurflen CVI¹ yn creu cysylltiad rhwng ardystio nam ar y golwg â chaniatâd ar gyfer atgyfeirio i awdurdodau lleol a chaniatâd ar gyfer anfon gwybodaeth epidemiolegol i'r Swyddfa Ardystio. O ganlyniad, ni fyddai pobl a oedd yn gwrthod cytuno i gymryd rhan yn y broses gyfan yn cael eu hardystio, felly roedden nhw'n colli'r cyfle i gael cymorth y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac nid oedd modd gwneud dadansoddiadau o wybodaeth epidemiolegol amdanynt.
4. Nod yr adolygiad oedd gwella'r broses er mwyn i bobl allu dewis a oedden nhw am gydsynio i'r broses yn rhannol neu'n llawn; annog awdurdodau lleol i gynnal asesiadau gofal cymdeithasol mwy cadarn o unigolion a; hwyluso'r gallu i gasglu mwy o ddata epidemiolegol i hybu ymchwil i nifer yr achosion o glefyd llygaid yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y broses newydd yn arwain yn y pen draw at well darpariaeth o wasanaethau i bobl sydd angen cymorth yn sgil colli eu golwg.

Diben y ffurflen

5. Ffurflen CVIW yw'r mecanwaith sy'n galluogi bod modd:
 - ardystio bod gan rywun naill ai nam ar y golwg (rhannol ddall) neu nam difrifol ar y golwg (dall);
 - atgyfeirio rhywun at awdurdod lleol er mwyn cael ei asesu a/neu ei gofrestru;
 - cofnodi detholiad safonol o ddata diagnostig a mathau eraill o ddata i'w defnyddio mewn dadansoddiadau epidemiolegol gan y Swyddfa Ardystio yn Ysbyty Llygaid Moorfields yn Llundain ar ran Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr.

Cofrestru ac asesu gan awdurdodau lleol

6. Ar ôl derbyn ffurflen CVI sydd wedi'i chwblhau, dylai adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol gysylltu â'r person i ofyn iddo a yw am iddynt roi ei enw ar eu cofrestr² a chynnig cynnal asesiad llawn o'i anghenion³. Ar ôl sefydlu bod yna angen, nod yr

¹ Ffurflen CVI 2003 (a ddisodlodd BD8) a ddefnyddiwyd yng Nghymru a Lloegr.

² Yn unol ag adran 18 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

³ Yn unol ag adran 19 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

awdurdod lleol fydd diwallu'r anghenion hynny. Gall yr awdurdod lleol gynnal asesiad o anghenion unrhyw ofalwr yn yr un modd hefyd⁴. Nid yw mynediad at wasanaethau cymdeithasol yn dibynnu ar gael eich cofrestru, fodd bynnag, bydd hyn yn berthnasol i rai o'r buddion. Gall yr awdurdod lleol helpu i egluro pa fuddion sydd ar gael ar eu cyfer.

Data epidemiolegol

7. Swyddfa Ardystio Ysbyty Llygaid Moorfields fydd yn casglu a dadansoddi data epidemiolegol dienw ar ran Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr. Gall Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol wneud cais i'r Swyddfa Ardystio am gael gweld a defnyddio'r data. Gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddefnyddio tystiolaeth ynghylch nifer achosion yn eu hasesiadau o anghenion eu preswylwyr a fydd yn hyrwyddo'u gallu i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol i ddiwallu'r cyfryw anghenion.

Ffurflen Tystysgrif Nam ar y Golwg Cymru (CVIW)

8. Mae'r ffurflen CVIW mewn dwy ran a gall y sawl sy'n cael ei ardystio ddewis pwy sy'n cael caniatâd i weld ei wybodaeth bersonol. Felly, gall person roi caniatâd i'r wybodaeth amdano gael ei rhannu â'r swyddfa ardystio a/neu ei awdurdod lleol ar adeg yr ardystio.
9. CVIW Rhan 1: Mae'r adran hon yn ardystio'n ffurfiol bod person wedi colli ei olwg; mae'n gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth; ac mae'n rhoi'r manylion am weithrediad y golwg a'r diagnosis o glefyd llygaid. Dylai'r offthalmolegydd gwblhau'r adran hon bob tro, gyda chaniatâd y claf.
10. CVIW Rhan 2: Mae'r adran hon yn galluogi i wybodaeth gael ei chasglu i gynorthwyo gyda'r broses o atgyfeirio at awdurdodau lleol ac mae'n cofnodi ethnigrwydd. Gall unrhyw aelod o staff gofal llygaid gwblhau'r adran hon gyda chaniatâd y claf.
11. CVIW Rhan 3: Mae'r adran hon yn cynnwys taflen wybodaeth i'r claf am y broses. Rhaid rhoi copi o'r daflen wybodaeth i'r sawl sy'n cael ei ardystio yn ddiethriad.

Beth sydd angen ei egluro wrth y person sy'n cael ei ardystio?

11. Dylai offthalmolegwyr ac unrhyw aelod staff arall sy'n rhan o'r broses ardystio sicrhau yn ddiethriad bod y wybodaeth ganlynol yn cael ei chyfleu i'r unigolion:
 - Nid oes rhaid i'r sawl sy'n cael ei ardystio gydsynio i gael ei atgyfeirio at yr awdurdod lleol nac ychwaith i'r wybodaeth am y clefyd ar ei lygaid gael ei rhannu â'r Swyddfa Ardystio yn Ysbyty Llygaid Moorfields. Mae'r dewis yn llwyr yn eu dwylo nhw.
 - Mae cael ei atgyfeirio at yr awdurdod lleol yn syniad da oherwydd bydd y person yn cael cynnig asesiad o'i anghenion o ran gofal a chymorth a bydd yr anghenion a nodir yn cael eu diwallu. Gall hyn helpu'r person i fyw yn annibynnol.
 - Gall gofalwyr y person gael asesiad o'u hanghenion o ran gofal a chymorth a chael diwallu'r anghenion a nodir.
 - Nid oes rhaid i berson sy'n cael ei atgyfeirio at awdurdod lleol am gymorth gael ei

⁴ Yn unol ag adran 24 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

gofrestru. Dylai asesiad o'i anghenion ddigwydd fel proses ar wahân.

- Gall cael ardystiad o nam ar y golwg helpu i gael mynediad at rai buddion. Bydd awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth am y materion hyn.
- Gall Swyddfa Ardystio Ysbyty Llygaid Moorfields ddadansoddi'r wybodaeth epidemiolegol i gael tystiolaeth o nifer yr achosion o gyflyrau llygaid sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Yna, gall y wybodaeth hon (sy'n ddiennw) gael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru, gan fyrddau iechyd lleol a chan awdurdodau lleol i gynllunio a theilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth.
- Rhaid i yrrwr sy'n colli ei olwg roi gwybod i'r DVLA cyn gynted â phosibl neu bydd mewn perygl o gael dirwy hyd at £1,000.

Cyngor ar lenwi'r ffurflen

12. Dylai'r claf gymryd rhan flaenllaw yn y broses o lenwi'r ffurflen.
13. Os oes gwahanol achosion yn y naill lygad a'r llall, dewiswch yr achos yn y llygad ddiwethaf i gael ei hardystio fel un â nam arni. Os oes gwahanol batholegau yn yr un llygad, dewiswch yr achos sy'n cyfrannu fwyaf at golli golwg yn eich barn chi. Os yw'n amhosibl dewis y prif achos, nodwch batholegau lluosog.

Pwy ddylai gael ei ardystio fel rhywun â nam difrifol ar y golwg?⁵

14. Mae modd dosbarthu pobl yn dri grŵp:

Grŵp 1: Pobl sydd o dan 3/60 Snellen

- Ardystio fel rhai â nam difrifol ar eu golwg: y rhan fwyaf o bobl sydd â chraffter golwg o dan 3/60 Snellen.
- Ni ddylid ardystio'r canlynol fel rhai â nam difrifol ar eu golwg: pobl â chraffter golwg o 1/18 Snellen oni bai bod eu maes golwg yn gyfyngedig iawn hefyd.
- Mewn llawer o achosion, mae'n well profi golwg person ar bellter o un metr. Mae 1/18 Snellen yn dynodi craffter ychydig yn well na 3/60 Snellen. Fodd bynnag, efallai ei bod yn well defnyddio 1/18 Snellen oherwydd mae'r mathau safonol o brawf yn darparu llinell o lythrennau y dylai person sydd â chraffter llawn ei darllen ar bellter o 18 metr.

Grŵp 2: Pobl sydd ar 3/60 ond o dan 6/60 Snellen

- Ardystio fel rhai â nam difrifol ar eu golwg: pobl sydd â maes golwg sy'n gyfyngedig iawn.
- Ni ddylid ardystio'r canlynol fel rhai â nam difrifol ar eu golwg: pobl sydd wedi bod â nam ar eu golwg am amser hir ac nad yw eu maes golwg yn gyfyngedig iawn. Er enghraifft, pobl sydd â nystagmus cynhenid, albinedd, myopia a chyflyrau eraill fel y rhain.

⁵ Yn flaenorol, diffiniais Adran 64 (1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 nam difrifol ar y golwg fel "a person can be certified as severely sight impaired if they are "so blind as to be unable to perform any work for which eye sight is essential". Yn y cyafmser mae Deddf Cymorth Gwladol 1948 wedi'i diddymu yng Nghymru o ganlyniad i ddeddfiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Grŵp 3: Pobl sy'n 6/60 Snellen neu uwch

- Ardystio fel rhai â nam difrifol ar eu golwg: pobl sydd â maes golwg cul yn enwedig os yw'r cyfyngiad yn rhan isaf y maes golwg.
- Ni ddylid ardystio'r canlynol fel rhai â nam difrifol ar eu golwg: pobl sydd â hemianopia deu-arleisiol neu homonymus sydd â chraffter golwg canolog o 6/18 Snellen neu uwch.

Pwyntiau eraill i'w hystyried wrth ardystio bod gan rywun nam difrifol ar y golwg

15. Mae'r pwyntiau hyn yn bwysig oherwydd ei bod yn fwy tebygol y byddwch chi'n ardystio person dan yr amgylchiadau canlynol:
- Pa mor ddiweddar mae golwg y person wedi methu? Gall person y mae ei olwg wedi methu'n ddiweddar gael mwy o anhawster addasu na pherson â'r un craffter golwg a gollodd ei olwg amser maith yn ôl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl yng ngrŵp 2 a 3 uchod.
 - Faint oedd oedran y person pan fethodd ei olwg? Gall person hyn y mae ei olwg wedi methu'n ddiweddar gael mwy o anhawster addasu na pherson ifanc â'r un diffyg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl yng ngrŵp 2 uchod.

Pwy ddylai gael ei ardystio fel rhywun â nam ar y golwg?

16. Mae gan bobl sydd wedi'u cofrestru â nam ar eu golwg yr un hawl i gymorth gan eu gwasanaethau cymdeithasol lleol â phobl sydd wedi'u cofrestru â nam difrifol ar eu golwg. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol a chonsesiynau treth ar gyfer pobl sydd wedi'u cofrestru â nam difrifol ar y golwg.
17. Fel canllaw cyffredinol, dylid ardystio bod gan bobl nam ar eu golwg os oes ganddynt graffter golwg o:
- 3/60 i 6/60 Snellen gyda maes golwg llawn.
 - hyd at 6/24 Snellen gyda chyfyngiad cymedrol o'r maes golwg, anrhyloywder yn yr haen ganol optegol neu aphakia
 - 6/18 Snellen neu hyd yn oed yn well os oes ganddyn nhw nam sylweddol, er enghraifft hemianopia, neu os oes cyfyngiad sylweddol o'r maes golwg, er enghraifft yn sgil retinitis pigmentosa neu glawcoma.

Pwyntiau eraill i'w hystyried wrth ardystio bod gan rywun nam ar y golwg

18. Mae'r pwyntiau hyn yn bwysig oherwydd mae'n fwy tebygol y byddwch chi'n ardystio rhywun dan yr amgylchiadau canlynol:
- Pa mor ddiweddar mae golwg rhywun wedi methu? Gall person y mae ei olwg wedi methu'n ddiweddar gael mwy o anhawster addasu na pherson â'r un craffter golwg a gollodd ei olwg amser maith yn ôl.

- Faint oedd oedran y person pan fethodd ei olwg? Gall person hŷn y mae ei olwg wedi methu'n ddiweddar gael mwy o anhawster addasu na pherson ifanc â'r un diffyg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl yng ngrŵp 2 uchod.
- A yw'r person yn byw ar ei ben ei hun neu a oes ganddo nam ar y clyw?

Diagnosis heb ei gynnwys (yn cynnwys cod ICD-10)

19. Cymeradwywyd y Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau (ICD)-10 gan 43ydd Cynulliad Iechyd y Byd ym mis Mai 1990 a dechreuwyd ei ddefnyddio yn Nhaleithiau Sefydliad Iechyd y Byd ym 1994. Yr ICD yw'r dosbarthiad diagnosis safonol bellach at bob diben epidemiolegol cyffredinol a llawer o ddibenion rheoli iechyd. Maent yn cynnwys dadansoddi sefyllfa iechyd gyffredinol grwpiau o boblogaeth a monitro nifer achosion a mynychder clefydau a phroblemau iechyd eraill mewn perthynas â newidynnau megis nodweddion ac amgylchiadau yr unigolion a effeithiwyd. Mae rhagor o wybodaeth am ICD-10 ar gael ar wefan Sefydliad Iechyd y Byd yn: <http://www.who.int/ên>

Pwy ddylai dderbyn copi o'r ffurflen CVIW?

20. Dylid anfon copi o'r ffurflen at yr asiantaethau y cytunodd y person i rannu gwybodaeth â nhw. Gweler Atodiad 1. Mae'r adran ar gyfer caniatâd i rannu gwybodaeth ar dudalen 2 o'r ffurflen CVIW.
21. Dylai gwasanaeth llygaid yr ysbyty gadw'r ffurflen wreiddiol a gwblhawyd, wedi'i llofnodi gan yr ymgynghorydd a'r claf, ar gyfer eu cofnodion nhw a rhaid rhoi copi i'r claf hefyd yn y fformat mwyaf hygyrch iddo.⁶

Cymorth y trydydd sector

22. Ym mhob achos, dylai offthalmolegwyr ac aelodau staff eraill gofal llygaid yr ysbyty achub ar bob cyfle i annog pobl i fynd at elusennau lleol i gael cymorth a chyngor yn enwedig os yw person wedi gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer cael ei atgyfeirio at yr awdurdod lleol.
23. Dylai gwasanaethau llygaid ysbytyai gydweithio ag asiantaethau'r trydydd sector i lunio pecynnau gwybodaeth y gellir eu rhoi i unigolion pan fydd cyflwr eu golwg yn cyrraedd lefel ardystio.

Ymholiadau

24. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y broses a'r ffurflen i:

Cangen Polisi Offthalmeg ac Awdioleg
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

⁶ Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwyl (cyhoeddwyd Gorffennaf 2013 gan GIG Cymru) ar gael yn: <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/standards/?skip=1&lang=cy>

Atodiad 1

1. Yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r person yn byw.

2. Swyddfa Ardystio: dylai clinigau anfon copi wedi'i styffylu o'r ffurflen CVIW i:

Royal College of Ophthalmologists
c/o Certifications Office
Moorfields Eye Hospital
City Road
London
EC1V 2PD

3. Dylid anfon copi o unrhyw ffurflen a gwblhawyd sy'n rhoi caniatâd i drosglwyddo gwybodaeth at yr awdurdod lleol ar ddiwrnod yr ardystio neu cyn gynted ag y bo modd wedi hynny. Bydd unrhyw oedi wrth anfon y ffurflen at yr awdurdod lleol yn golygu y bydd oedi yn y gofal a'r cymorth y gall yr unigolyn fod angen.

4. Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru: dylai clinigau anfon copi wedi'i styffylu o'r ffurflen CVIW i:

Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru
Teilo
Ysbyty Cyffredinol Glangwili
Heol Glangwili
Caerfyrddin
SA31 2AF

Mae modd i gopiâu sydd wedi'u sganio gael eu hanfon trwy gyfeiriad e-bost diogel i:
Low.vision@wales.nhs.uk

5. Efallai y bydd clinigau'n dymuno anfon pecynnau neu ffurflenni bob mis neu bob chwarter, yn dibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt. Cofiwch sicrhau bod y pecyn wedi'i farcio'n glir gyda'r flwyddyn y mae'r ffurflenni'n berthnasol iddi.